

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, nos Fawrth yr 8ed o Ionawr 2019.

- 1. Presennol:** Ffion Jones (Nantlle) – Cadair; Nora Jones, Harry Wyn Owen – Talysarn; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Dylan Herbert, Justin Davies, Iona Wyn Jones, Barry Bracegirdle, Erfyl Williams – Penygroes; Dafydd Thomas – Nebo; Judith Humphreys – Cynghorydd Sir.
Ymddiheuriadau: Craig ab Iago – Cynghorydd Sir; **Sedd Wag** – Cyflwynwyd enw Rebeca Sian Dafydd i gynrychioli ward Talysarn – y Cyngor yn rhydd i gyfethol a phenderfynwyd ei chyfethol i'r Cyngor. Y Clerc i gysylltu efo hi i gadarnhau.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Harry Wyn Owen – eitemau gwasanaeth bws / llochesi bws.
- 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Rhagfyr.** Harry yn datgan cywirdeb, a Justin yn eilio.
- 4. Cynghorwyr Sir – Adroddiadau.** Derbyniwyd adroddiad gan Judith. Barry yn datgan fod popeth a ofynwyd amdano i'r Cyngor Sir o ran cynnal a chadw ym Mhenygroes wedi ei gwblhau (draeniau ac yn y blaen), a diolchwyd i Judith am yr holl waith y mae wedi ei wneud. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo Barry Maelor Williams Cyngor Gwynedd am y gwaith rhagorol.
- 5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Darllenwyd yr ymatebion. Cadarnhawyd fod draeniau Llanllyfni a Talysarn wedi cael eu glanhau. Derbyniwyd ymateb nad oedd Ysgol Llanllyfni yn disgyn oddi fewn canllawiau i gael swyddog croesi'r ffordd ar gyfer y disgyblion; Cadarnhawyd fod blaenoriaeth i gael llithren newydd i Cwtin pan fydd cyllid Cyngor Gwynedd yn caniatáu; Darllenwyd ymateb y Cyngor parthed y cwtogiadau yn y gwasanaeth bws (HWO yn datgan diddordeb). Gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo swyddog Cyngor Gwynedd eto i holi os yw'r biniau halen wedi ei llenwi; Gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo cwni Dorothea i ofyn am gyfarfod Is-Bwyllgor yn y prynhawn, yn hytrach na'u cael i fynychu cyfarfod llawn y Cyngor. (Gofyn am 2 ddyddiad ar brynhawn Mercher). (Cynghorwyr Talysarn a'r Cadeirydd).
- 6. Materion Pentrefi - Llanllyfni i Penygroes** – roedd y Cynghorwyr wedi sylwi fod rhywun yn cylchu baw ci ar y palmant gyda paent melyn. Gwelwyd fod hyn yn amlygu'r broblem hyd yn oed yn fwy, a'i fod yn codi ymwybyddiaeth trigolion eto tuag at y broblem. Cysylltu efo Cyngor Gwynedd i'w hysbysu. Penygroes Peiriant arian y Co-op newydd – ymholiad os oedd cynlluniau ar gyfer cael un dwy-ieithog – penderfynwyd cysylltu ar y cyd efo Judith. Gofynwyd hefyd os y byddai lle croesi lon i'r Co-op?
- 7. Cyllideb a Praesept 2019-20.** Trafodwyd y Praesept a cytunwyd ar y cyllid am y flwyddyn. Gofynwyd i Dafydd Thomas gynrychioli'r Cyngor Cymuned mewn cyfarfodydd Pensiwn Cyngor Gwynedd. Cymerwyd i ystyriaeth yr arian wrth gefn, ychwanegiad yn nghynllun gwaith MacPelah, cyfraniadau'r Cyngor tuag at y Llyfrgell, Gwasanaeth Clwb Ieuenctid, llenwi biniau halen (i gyd wedi eu trosglwyddo o Gyngor Gwynedd), uwchraddio goleuadau Nadolig. Rhoddwyd tair opsiwn gerbron, a chafwyd pleidlais, a thrwy mwyafrif, **penderfynwyd** cynyddu Praesept o £6 y ty. Bydd cais Praesept Cyngor Cymuned Llanllyfni eleni felly am **£48826**. Adroddwyd yn ol i'r Cyngor o'r is-bwyllgor mynwent â gyfarfu cyn y Cyngor llawn heno. (O.P. Barry, Gwyndaf, Harry Wyn, Gareth Jones Y.G. Alwen J yn bresennol). Roedd aelodau'r Is-grwp yn flin iawn nad oedd YG wedi ymgynghori ynglyn a'r gwariant ychwanegol. 'Roedd y Cyngor llawn eisoes wedi penderfynu i dalu'r swm gwreiddiol, a dyna yn unig oedd yn y gyllideb ar gyfer 2018-19. Nid oedd unrhyw wybodaeth am symiau ychwanegol sylweddol. Gan fod YG eisoes wedi talu'r ymgwymerwr penderfynwyd talu'r swm gwreiddiol yn unig yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ond oherwydd nad oedd y swm ychwanegol o thua £17,000 wedi ei gyllidebu rhaid trefnu i dalu dros amser. Roedd y cynghorwyr i gyd yn flin iawn fod dim ymgynghoriad wedi bod ynglyn a'r gwariant ychwanegol, a phenderfynwyd awgrymu i'r Cyngor llawn i edrych am ffyrdd eraill o weithredu gyda cham 2 o broseict y fynwent. Barry yn cynnig a Dafydd yn eilio bod angen prisio gwaith ar gyfer gosod llwybrau (Rhan 2) yn y darn newydd i gwblhau prosiect MacPelah (Rhan 1 a 2), a gwneud cais am fenthyciad o £50,000 ar gyfer y brosiect hon yn ei chyfanrwydd yn ystod 2019-20.
- 8. Taflen Ariannol a Chyllid.** Cymeradwywyd y daflen ariannol. Cafwyd cyfnod craffu ar drafodaethau ariannol (DT), a chafwyd popeth yn gywir a mewn trefn.
- 9. Cynllunio C18/1134/22HY** Arwyddion newydd gan gynnwys arwyddion goleuedig – cyn safle Garej Povey, Penygroes. Cymeradwyo, a gyrru awgrymiadau ar y cywirdeb iaith.
- 10. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis.** Trafodaethau yn parhau RWP.
- 11. Gohebiaeth**

***Cyngor Gwynedd:**

*A Davies – Cwmni Hamdden Gwynedd. Er gwybodaeth, strwythur newydd canolfannau hamdden Gwynedd.

*Aled Roberts – Ailwynebu cylchfan Penygroes. Er gwybodaeth.

*Lloches bws Penygroes – (HWO yn datgan diddordeb a gadael yr ystafell) Derbyniwyd ebost gan Cyngor Gwynedd yn ein hysbysu fod arian grant ar gael am lochesi bws ar lwybr y T2. Y cynnig oedd i dynnu'r hen loches cerrig i lawr a chael un blasting yn ei lle. Fe nodwyd fod y Cyngor wedi bod yn gofyn yn y gorffennol am hyn oherwydd y difrod a'r golwg fydd yn cael ei adael yno yn aml. Wedi trafodaeth, penderfynwyd y byddai yn syniad da tynnu'r hen un i lawr, ond bod angen lloches maint mawr hefo tō yn ei lle. Yn ogystal, gofynwyd am sylwadau'r Cyngor am leoliad i loches bws arall yn y pentref, a phenderfynwyd fod angen cyfarfod safle ym Mhenygroes gyda'r swyddogion diogelwch y ffyrdd.

***Arall**

*Un Llais – Cytundeb Tal Cenedlaethol – er gwybodaeth; Cabinet y Prif Weinidog – er gwybodaeth; Pecyn Cymorth – er gwybodaeth; Systemau draenio Cynaliadwy ceisiadau cynllunio – er gwybodaeth. Fe rannwyd y dogfennau hyn drwy ebost yn ystod y mis.

*Play Wales – Cyhoeddiadau – er gwybodaeth.

*Joan Lockett – Diweddariad Cyngor Cymuned a Thref. Er gwybodaeth.

*Coleg Glynllifon – Gwybodaeth am gampws Coleg Glynllifon.

*Canolfannau Iaith Addysg – derbyniwyd llythyr yn gofyn am gefnogaeth i wrthwynebu cau canolfannau iaith. Yn sgil trafodaethau diweddar rhwng y Cyngor a'r Brifysgol, a barn y cynghorwyr, penderfynwyd cefnogi gan fod y canolfannau yma yn hanfodol a'r gwaith y maent yn ei wneud yn arbennig.

12. Biniau Halen Y Clerc i gysylltu gyda'r Swyddog yng Nghyngor Gwynedd i ofyn os yw'r biniau wedi eu llenwi erbyn hyn.

13. Clwb Ieuentid Dim byd ychwanegol i'w adrodd.

14. Llwybrau a Mynwentydd/Prosiect MacPelah Profi Cerrig – y Clerc wedi holi am rywun i ymgymryd â'r gwaith – **penderfynwyd** gofyn am bris / Beddi Cadw – cafwyd trafodaeth am feddi cadw ym mynwentydd y Cyngor, a'r diffyg lle claddu, a sefyllfa ariannol y Cyngor parthed y gwaith sydd yn parhau i fod angen ei wneud i orffen estyniad MacPelah. Trafodwyd gwahanol opsiynau, a **phenderfynwyd** drwy bleidlais y byddai'r Cyngor yn peidio â gwerthu beddi cadw am flwyddyn, yn weithredol yn syth, ac i'w adolygu gyda thrafodaeth Praesept ym mis Ionawr 2020.

15. Materion yn ymwued a'r heddlu. Cwynion fod cŵn rhydd yn y pentref yn Nebo. Cysylltu efo'r warden gŵn.

16. Materion ariannol – *Anfonebau: A Johnson – derbynebau (dim); A Johnson – Ffon/Rhyngrwyd £25; Festri Soar - £160. Cymeradwyo.

Ceisiadau am arian – Cynghrair Pel Rwyd Gwynedd a Mon. Trafod fis Chwefror.